**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1259
Ein cyf/Our ref JJ/00236/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd − Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Chwefror 2022

Annwyl Jack Sargeant AS

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 27 Ionawr ynglŷn â'r ddeiseb i wahardd defnyddio bagiau baw cŵn nad ydynt yn fioddiraddadwy.

Mae gennyf gydymdeimlad â'r pryderon a godwyd yn y ddeiseb hon, ac rwy'n siomedig yn aml o weld bagiau gwastraff cŵn sydd wedi cael eu gwasgaru ar draws cefn gwlad gan berchnogion cŵn anghyfrifol. Er ei bod yn ymddangos bod gwahardd bagiau nad ydynt yn fioddiraddadwy yn ateb posibl, mae heriau'n gysylltiedig â hynny hefyd. Er enghraifft, mae'r deunyddiau a ddefnyddir i wneud bagiau gwastraff cŵn, hyd yn oed y rhai "ecogyfeillgar", yn amrywio'n fawr. Yn aml, mae angen amodau penodol o ran gwres a thymheredd, nad ydynt yn digwydd yn yr amgylchedd naturiol, cyn y bydd bagiau o ddeunyddiau naturiol y gellir eu compostio yn pydru. Mae'n bosibl hefyd mai un o ganlyniadau anfwriadol bagiau o'r fath yw na fyddai pobl yn cael gwared ar eu bagiau mewn ffordd briodol oherwydd eu bod yn credu y byddant yn dadelfennu'n gyflym ac yn ddiogel. Mae'n debygol, fodd bynnag, y byddant yn parhau yn yr amgylchedd am amser hir.

Rwyf o'r farn mai'r ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'r mater hwn yw sicrhau bod perchnogion cŵn yn codi gwastraff cŵn ac yn cael gwared arno'n briodol mewn bin. Er mwyn helpu yn hyn o beth, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r awdurdodau lleol a sefydliadau fel Cadwch Gymru'n Daclus. Yn rhan o'r gwaith hwnnw, darparwyd cyllid yn ddiweddar ar gyfer rhaglen *Caru Cymru*, sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad mewn perthynas â nifer o faterion sy'n gysylltiedig ag ansawdd yr amgylchedd lleol. Mae hynny'n cynnwys ymgyrch benodol sy'n hoelio sylw ar faw cŵn, a gweithio gyda'r awdurdodau lleol i dreialu atebion gwahanol er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r broblem. Rwyf wedi atodi dolen i'w tudalen ymgyrchu isod er mwyn ichi fedru cyfeirio ati:

Cadwch Gymru'n Daclus – Gadewch Olion Pawennau'n Unig

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hefyd, gwnaethom ymgynghori y llynedd ar fersiwn ddrafft o'n *Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon* a ysgrifennwyd ar y cyd ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys cynghorau, busnesau ac elusennau amgylcheddol. Bydd amryfal gamau gweithredu yn y cynllun a fydd yn canolbwyntio ar bethau fel lleihau faint o wastraff yr ydym yn ei greu, codi ymwybyddiaeth, a gwella gweithgarwch gorfodi.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon o gymorth ichi.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change